



Ein Treftadaeth  
Our Heritage

# Arweinlyfr Tywysogion Gwynedd

Darganfyddwch chwedlau tywysogion grymus Gwynedd yn  
nhirwedd syfrdanol Gogledd Cymru



Clawr: Castell Cricieth  
© Cadw, Llywodraeth Cymru (Hawlfraint y Goron)  
Y dudalen hon: Castell Dolwyddelan  
© Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy



Ymddiriedolaeth  
Genedlaethol  
National Trust



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government





Castell Dolwyddelan

## Y tu mewn i'r llyfr

Camwch i mewn i dirweddau dramatig, hanesyddol Cymru a darganfyddwch stori **tywysogion Gwynedd**, sef llinach ganoloesol fwyaf llwyddiannus Cymru. Roedd yr arweinwyr rhyfeddol hyn yn rhyfelwyr anodd eu trin, yn wleidyddion craff ac yn noddwyr hael i'r byd llenyddol a phensaernïol. Mae eu bywydau a'u hamseroedd, sy'n ymestyn dros 900 o flynyddoedd, wedi ffurfio'r wlad rydym yn ei hadnabod heddiw ac wedi gadael ôl parhaol ar y dirwedd sydd ohoni.

Bydd yr arweinlyfr hwn yn dangos i chi ble i ddod o hyd i gestyll trawiadol, palasau coll ac eglwysi heddychlun o oes y tywysogion.





© Sarah McCarthy

Castell y Bere

# Cipolwg ar dywysogion Gwynedd

Dyma rai o'n hargymhellion gorau:



© Tywysogion Gwynedd



Pam na ddechreuwch eich taith wrth adfeilion **Castell Deganwy**? Saif ar gopaon y ddau fryn creigiog sy'n edrych dros geg Afon Conwy, lle bu gan lywodraethwr grymus Gwynedd o'r 6ed ganrif, Maelgwn 'Tal' lys ar un tro.

Am fwy o wybodaeth, ewch i dudalen 15

© Tywysogion Gwynedd



Os mai cyfle am ffotograff da sy'n mynd â'ch bryd, bydd rhaid ichi fynd i **Gastell Cricieth**, sef caer y bu ymladd brwd amdano yn uchel ar bentir uwchlaw Bae Tremadog.

Am fwy o wybodaeth, ewch i dudalen 15

© Tywysogion Gwynedd



Os oes well gennych dirwedd anghysbell, fwy myfyriol, ewch tuag at **Abaty Cymer**, y fynachlog Sistersaidd lle magodd y mynachod geffylau gwych i Llywelyn ap Iorwerth, sy'n cael ei adnabod fel Llywelyn 'Fawr'.

Am fwy o wybodaeth, ewch i dudalen 16

© Hawffraint y Goron,  
CBHC



Mae **Castell y Bere**, sy'n edrych dros Ddyffryn Dysynni, yn un o'r adfeilion mwyaf atmosfferig yng Nghymru. Ar un tro, amddiffynnodd y gaer hon ffin ddeheuol cadarnle mynyddig Gwynedd.

Am fwy o wybodaeth, ewch i dudalen 16

© David Longley



Er mwyn ymchwilio i fywyd llysaidd y tywysogion, ewch i **Llys Rhosyr**. Cloddiwyd gweddillion palas brenhinol yma'n ddiweddar.

Am fwy o wybodaeth, ewch i dudalen 17

© Tywysogion Gwynedd



A sicrhewch nad ydych chi'n colli adfeilion eithriadol, rhamantus **Castell Dolwyddelan**, a adeiladwyd gan Llywelyn Fawr i amddiffyn ei borfeydd ac un o'r prif lwybrau trwy Eryri.

Am fwy o wybodaeth, ewch i dudalen 17

© Sarah McCarthy



Yng Nghraflwyn, byddwch wrth eich bodd yn darganfod tarddiad y Ddraig Goch, sef symbol cenedlaethol Cymru, ar safle copa bryn hynafol **Dinas Emrys**.

Am fwy o wybodaeth, ewch i dudalen 22



# Cynnwys

- 8 Hanes pedair rhan o dywysogion Gwynedd
- 14 Safleoedd allweddol
- 18 Teithiau
- 35 Y pum safle gorau am...
- 36 Rhagor o wybodaeth

Chwith: Llys Euryr, Llandrillo yn Rhos

Isod: Dafydd ap Gruffudd yn cael ei dynnu gan geffyl yn ystod ei ddienyddiad





© Cadw, Llywodraeth Cymru (Hawffraint y Goron)

Priordy Penmon

## Ymddangosiad teyrnas Gwynedd

Yn ôl y chwedl, cafodd teyrnas Gwynedd ei sefydlu yn y 5ed ganrif gan Cunedda Wledig, pennaeth o ogledd Prydain. Hwyrach fod hyn yn ymddangos yn gysylltiad od, ond roedd Cymru a chryn dipyn o ogledd Prydain yn rhannu'r un iaith a diwylliant ar y pryd.



# Faint ydyn ni'n ei wybod am yr hyn a ddigwyddodd mewn gwirionedd?

Yn oddeutu 400 O.C. tynnwyd llengoedd Rhufain yn ôl o Brydain ar ôl bron i 300 o flynyddoedd o feddiannaeth. Yn y gwactod pŵer a ddilynodd, rhannwyd ardal Cymru, fel yr ydym yn ei hadnabod heddiw'n deyrnasoedd bach, gydag arweinyddiaeth a thir yn cael eu rhannu ymhlith rhwydwaith o deuluoedd.

Un o llywodraethwyr cynharaf Gwynedd y mae ei fodolaeth wedi'i gadarnhau mewn ffynonellau hanesyddol yw Maelgwn. Roedd yn rhyfelwr anodd ei drechu ac mae'n bosibl mai yn Neganwy oedd ei brif lys, ac y bu farw o'r pla oddeutu 547. Mae ein ffynhonnell wybodaeth amdano mewn testun pregeth gan Gildas, clerigwr o'r un oes ag ef - ac mae'n haltt ei feirniadaeth ohono. Condemiiodd Gildas Maelgwn fel un o bum llywodraethwr gresynus Prydain ar y pryd, ond mwy na thebyg mai propaganda oedd hwn a achoswyd gan y siom o ymrwymiad sigledig Maelgwn i Gristnogaeth. Mewn gwirionedd, mae'n ymddangos bod Maelgwn wedi bod yn noddwr i sawl sant cynnar.

## Amdiffyn y deyrnas - gorchfygiad y Sacsoniaid, y Llychlynwyr a'r Normaniaid

O'r 7fed ganrif ymlaen, wynebodd arweinwyr Gwynedd ymosodiadau mynych gan elynion o'r tu allan i Gymru. Yn 616, trechodd y Brenin Cadwallon (a deyrnasodd oddeutu 625 i 634) y Brenin Edwin o Northumbria, ac yn y canrifoedd a ddilynodd, dioddefodd y deyrnas ymosodiadau gan luoedd Sacsonaidd a Llychlynnaidd. Trechodd **Rhodri Mawr** y Llychlynwyr yn 856 a daeth yn un o lywodraethwyr mwyaf llwyddiannus Gwynedd, gan ehangu ei ddylanwad dros gryn dipyn o Gymru.

Cyflwynodd y **Goncwest Normanaidd** o Brydain ym 1066 elyn newydd. **Gruffudd ap Cynan** oedd tywysog cyntaf Gwynedd i wynebu'r Normaniaid mewn brwydr yn y 1080au. Fe'i magwyd yn Swords, ger Dulyn, gan dad o Gymru a mam Wyddelig-Norwyaidd ac roedd yn benderfynol o adennill y deyrnas a lywodraethwyd gan ei daid. Roedd gan Gruffudd fywyd rhyfeddol. Cafodd ei gipio gan yr iarll Normanaidd, Huw o Gaer ym 1081 ond llwyddodd i ddianc ar ôl dros 10 mlynedd o gaethiwed. Gyda chymorth y brenin Norwyaidd, Magnus Bareleg a'i lynges, llwyddodd Gruffudd i yrru'r Normaniaid allan o Ogledd Cymru yn oddeutu 1100.

Ystyrir rhan olaf teyrnasiad Gruffudd fel oes aur yn hanes Gwynedd, gyda diwygiad mewn cymdeithas a llywodraeth. Yn ôl ei fywgraffiad, adeiladwyd llawer o eglwysi newydd o garreg dan Gruffudd i'r graddau fel bod 'Gwynedd yn disgleirio gydag eglwysi wedi'u gwyngalchu fel y sêr yn y ffurfafen'. Parhaodd y ffyniant a'r sefydlogrwydd gwleidyddol hwn pan olynodd ei fab, **Owain Gwynedd**, Gruffudd adeg ei farwolaeth ym 1137. Er gwaethaf gwrthwynebiad brenin Lloegr, Harri II, ehangodd Gwynedd dan arweinyddiaeth Owain. Erbyn adeg ei farwolaeth ym 1170, roedd Owain yn rheoli Gogledd Cymru i gyd, yn ogystal â rhai tiroedd yn y gorllewin ac i'r de. Yn ystod blynyddoedd olaf ei deyrnasiad, dechreuodd ddefnyddio'r teitl '**Owain Walarium princeps**' - 'Owain, Tywysog Cymru'.

### Oeddech chi'n gwybod?

Mae modd gweld carreg bedd y Brenin Cadfan, tad Brenin Cadwallon, yn Eglwys Llangadwaladr, Ynys Môn. Mae'r arysgrif Lladin yn anrhydeddu Cadfan fel y brenin doethaf un.



# Gellir cael profiad o etifeddiaeth tywysogion Gwynedd trwy fywyd diwylliannol a thirwedd Cymru hyd heddiw


## Llywelyn Fawr a'i deyrnas lewyrchus

Yn y 13eg ganrif, ehangodd tywysogion Gwynedd eu teyrnas hyd yn oed ymhellach, gan ganfod eu hunain yn aml mewn cylchoedd o heddwch a gwrthdaro anesmwyth gyda brenhinoedd Eingl-Normanaid Lloegr. Arweinydd pwerus rhan gyntaf y cyfnod hwn oedd Llywelyn ap Iorwerth, neu Llywelyn 'Fawr', a deyrnasodd o 1201 tan ei farwolaeth ym 1240.

Fel wŷr i Owain Gwynedd, manteisiodd Llywelyn ar y gwactod pŵer yng Ngwynedd yn dilyn marwolaeth Owain. Roedd yn fwy cyfrwys na'i ewythr ac fe'i trechodd mewn brwydr, a phan fu farw ei gefnder, hawliodd reolaeth lwy'r ar y deyrnas.

O'r pwynt hwnnw ymlaen, roedd trafferthion mwyaf Llywelyn gyda gorsedd Lloegr. Ym 1205, unodd mewn priodas strategol a diplomataidd â **Siwan, merch Brenin John**. Roedd Siwan, sy'n cael ei galw'n aml yn 'Foneddiges Cymru', yn wraig ddylanwadol a ymyrrodd fel heddychwraig rhwng ei thad a'i gŵr ar sawl achlysur. Gwelodd Llywelyn fod olynydd John, Harri III yn haws delio ag ef a gorfennodd ei deyrnasiad heb golli unrhyw dir i Loegr.

Roedd Llywelyn yn adeiladwr cestyll gwych ac adeiladwyd caerâu yng **Nghricieith, Castell y Bere, Dolwyddelan** a **Dolbadarn** yn ystod ei deyrnasiad. Fel arweinydd eangfrydig, roedd yn fuddiolwr gwych i'r **urdd fynachaidd Sistersaidd** hefyd. Roedd ei gefnogaeth i abatai, fel yr un yn Aberconwy, lle saif tref Conwy heddiw, yn rhan o'r ffordd y cysylltodd Gwynedd â'r byd crefyddol a diwylliannol ehangach ledled Ewrop.



## Llywelyn ein Llyw Olaf – Tywysog Cymru gyfan

Llywelyn ap Gruffudd, (neu Llywelyn ein Llyw Olaf) oedd wŷr Llywelyn Fawr. Daeth i'r orsedd ym 1255 a pharhaodd i ehangu Gwynedd. Ym 1267, rhoddodd Cytundeb Trefaldwyn statws iddo nad oedd yr un o'i ragflaenwyr wedi'i gyflawni, pan gafodd ei gydnabod yn swyddogol fel 'Tywysog Cymru'.

Denodd llwyddiant Llywelyn atgasedd brenin Lloegr, Edward I. Priododd Llywelyn ag Elinor de Montfort, merch Simon de Montfort, sef gelyn Edward ac arweinydd 'Gwrthryfel y Barwniaid' (1264-7). Roedd y briodas hon, a gynhaliwyd trwy ddirprwy, yn rhan annatod o'r gynghrair a gafwyd rhwng Llywelyn a de Montfort. Fodd bynnag, pan gafodd Elinor ei llongdryllio ym 1275 ar ei ffordd o Ffrainc i ymuno â'i gŵr, cafodd ei chipio a'i charcharu yng Nghastell Windsor gan y brenin. Bu'r tyndra'n gynhyrfus am flynyddoedd.

Dechreuodd y rhyfel olaf gyda Lloegr ym 1282 ar ôl i frawd Llywelyn, Dafydd, ymosod ar Gastell Penarlâg - mewn ymateb i swyddogion Edward yn gorfodi cyfraith Lloegr yng Nghymru. Mewn llythyr enwog, a anfonwyd o'i lys yn Abergwyngregyn, nododd Llywelyn ei resymau am fynd i ryfel:

'Brwydrwn oherwydd bod rhaid i ni frwydro, oherwydd rydym ni, a Chymru gyfan, dan ormes, wedi'n darostwng, ein hysbeilio, wedi'n gostwng i gaethwasanaeth swyddogion a beiliaid brenhinol...'

Achosodd marwolaeth Llywelyn dan ddwylo'r Saeson, mewn ymosodiad gerllaw Llanfair-ym-Muallt ym mis Rhagfyr 1282, i'w bobl alaru a rhoddodd derfyn ar y freuddwyd o Gymru unedig, annibynnol. Olynodd Dafydd ei frawd i arwain Gwynedd a pharhaodd â'r frwydr i mewn i'r flwyddyn nesaf, ond roedd byddin Lloegr yn rhy bwerus. Cipiwyd Dafydd, ym mynyddoedd gogledd Eryri mwy na thebyg, ac fe'i dienyddiwyd mewn ffordd ffaidd, trwy gael ei grogi, ei ddiiberfeddu a'i chwarteru yn Amwythig.

Roedd llinach llywodraethwyr tywysogaidd Gwynedd wedi dod i ben.

### Oeddech chi'n gwybod?

Yn ôl pob sôn, roedd gan Owain Gwynedd 22 o blant gan bedair merch wahanol.



1099-1137

Gruffudd ap Cynan  
(llywodraethwr mewn enw y 1080au a'r 1090au, llywodraethwr llwyr ar ôl hel y Normaniaid allan)

1201-1240

Llywelyn ab Iorwerth  
(Llywelyn 'Fawr')

1246-1255

Rhannwyd y pŵer rhwng Llywelyn ap Gruffudd a'i frawd Owain

1282-1283

Dafydd ap Gruffudd

1100

1200

1300

1137-1170

Owain Gwynedd

1240 - 1246

Dafydd ap Llywelyn

1255-1282

Llywelyn ap Gruffudd  
(Llywelyn ein 'Llyw Olaf')

1255-1282

Concwest Edward I o Wynedd; diwedd llinell dywysogaidd annibynnol Gwynedd.

mab

mab

wŷr

brawd

wŷr



© Hawlfraint y Goron – Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Caeau i'r gorllewin o Abergwyngregyn



Abergwyngregyn

© Tywysogion Gwynedd



Castell Dolbadarn

© Cadw, Tywodraeth Cymru (Hawlfraint y Goron)

# “Oer calon dan fron o fraw – allwynin, Am frenin, dderwin ddôr, Aberffraw. Arglwydd, neud maendo ymandaw – Cymry, O’r llin a ddyly ddaly Aberffraw”.

Gruffudd ab yr Ynad Goch, 1282

## Beirdd a noddwyr

Pan laddwyd Llywelyn ein Llyw Olaf ym 1282, cyfansoddodd ei fardd llys, Gruffudd ab yr Ynad Goch, farwnad emosiynol iddo.

Ynddi, mae’r gerdd yn cyfeirio at Aberffraw ar Ynys Môn - llys pwysicaf llywodraethwyr cynnar Gwynedd. Yn ystod anterth y tywysogion, roedd gan Aberffraw arwyddocâd symbolaidd mawr, i’r graddau yr oedd taid Llywelyn ein Llyw Olaf, Llywelyn Fawr, yn galw ei hun yn ‘Dywysog Aberffraw ac Arglwydd Eryri’.

Mae marwnad Llywelyn yn un o’r nifer fawr o’r fath gerddi sydd wedi goroesi o adeg y tywysogion. Cafodd awduron y penillion hyfryd hyn nawdd brenhinol hael ac roeddent yn perfformio’u gwaith yn y llys.

## Tir a chyfraith - rhedeg y deyrnas

Roedd gan dywysogion Gwynedd ffordd wahanol o lywodraethu. Rhannwyd eu tiriogaeth yn nifer o ardaloedd gweinyddol. Roedd gan bob un o’r rhain faerdref yn eu canol. Yng nghalon pob maerdref roedd llys – neu balas yng nghanol yr ystâd frenhinol. Byddai’r tywysogion a’u gosgordd yn teithio o gwmpas y llysoedd hyn trwy gydol y flwyddyn, yn diddanu cynghreiriaid a gwŷr pwysig, yn gweinyddu cyfiawnder ac yn casglu trethi.

Roedd disgwyl i boblogaeth pob maerdref ddarparu digon o fwyd i’r tywysog a’i gymdeithion pan oeddent yn preswyllo yno. Roedd hyn yn gyflawniad sylweddol, oherwydd gallai’r parti brenhinol gynnwys cynifer â 500 o bobl a’u ceffylau.

Roedd pob maerdref wedi’i chysylltu â phorfeydd mynyddig oedd yn cael eu galw’n ffriddoedd, lle roedd gyroedd y tywysogion yn pori. Roedd gwartheg yn arian yng Ngwynedd yr oesoedd canol, ac roedd y rhandiroedd hyn, ynghyd â’r da byw a gefnogwyd ganddynt, yn ganolog i’r economi dywysogaidd. O ganlyniad, diogelwyd y ffriddoedd yn aml gan gestyll trawiadol, fel Dolbadarn wrth droed yr Wyddfa.



## Oeddech chi’n gwybod?

Yn ôl un cyfraith Gymreig, os byddai gwaig yn gwahanu wrth ei gŵr ar ôl saith mlynedd o briodas, roedd hi’n cael hawlio hanner eu heiddo. Roedd plant a hyd yn oed cathod yn cael eu cynnwys yn y gyfraith hon.

Cefnogwyd eu rheolaeth gan system o gyfreithiau Cymreig a ddatblygwyd gan Hywel Dda, tywysog y Deheubarth (de-orllewin Cymru) a ddaeth i reoli’r rhan fwyaf o Gymru, gan gynnwys Gwynedd, ar ddechrau’r 10fed ganrif. Gallai dyn wedi’i gyhuddo o drosedd amddiffyn ei hun trwy alw ar dystion cymeriad. Po fwyaf difrifol yr honiad, y mwyaf parchus yr oedd angen i’r dystion fod. Roedd y system gyfreithiol hon o flaen ei hamser, ac ni chafodd cyfreithiau tebyg eu mabwysiadu mewn manau eraill am ganrifoedd.



© Tywysogion Gwynedd

Castell Deganwy

# Safleoedd allweddol

## Castell Deganwy

Mae caerau wedi llenwi'r man gwyntog hwn ers canrifoedd. Cafodd y ddau gopa creigiog sy'n edrych dros geg Afon Conwy eu meddiannu yn ystod adeg y Rhufeiniaid yn y lle cyntaf, ac ymddengys eu bod wedi cael eu defnyddio yn y 6ed ganrif gan lywodraethwr mawr Gwynedd, Maelgwn 'Tal'.

Yn ôl pob sôn, adeiladodd Robert o Ruddlan, penarglwydd Normanaidd ffaidd, gastell yma yn y 1080au; cafodd ei ddinistrio yn nes ymlaen i'w atal rhag cwmpo i ddwylo'r Brenin John. Ailadeiladodd Llywelyn Fawr y castell ym 1213, ond yn ei dro, cafodd ei ddymchwel gan ei feibion ym 1245, i'w stopio rhag cael ei gipio gan Harri III. Gallwch weld gwaelod tŵr crwn castell Llywelyn o hyd, yn ogystal â rhan o'i gysylltfa ar y bryn uchaf.

Ailadeiladodd Harri III y castell, ond ail-gipiodd Llywelyn ein Llyw Olaf y gwrthglawdd a'i ddymchwel am y tro olaf ym 1263. Gallwch barhau i gerdded o gwmpas adfeilion ei waliau a'i byrth heddiw.

*Yn y car: mae dau gopa Deganwy lai na 2 filltir i'r de o Landudno ar yr A546. Nid oes lle parcio ar gael ar y safle. Ar y trên: mae gorsaf Deganwy ar linell Dyffryn Conwy, o Landudno neu Gyffordd Llandudno. Mae'r castell 10-15 munud o daith gerdded o'r orsaf drenau. Cyfeirnod map OS SH 783 795.*

Tebygrwydd posibl i Llywelyn Fawr, a ganfuwyd yng Nghastell Deganwy



Castell Cricieth



## Castell Cricieth

Disgrifiodd cerdd o'r 14eg ganrif Gastell Cricieth, sy'n edrych dros Fae Ceredigion, fel y 'gaer ddisglair ar y clogwyn'. Mae mewn man prydferth yn ddi os, ac wedi'i ddiogelu'n dda. Wrth ichi fynd i mewn i'r castell trwy'r porth urddasol gyda'i dyrau crwn mawrion, chwiliwch am yr holltau saethau yn uchel i fyny yn y waliau.

Mae Cricieth yn un o sawl castell a adeiladwyd gan Llywelyn Fawr. Estynnodd ei ŵyr, Llywelyn ein Llyw Olaf, y castell a mwy na thebyg ychwanegodd y wal allanol hefyd. Ym 1282, ar ôl i luoedd Lloegr goncro Gwynedd, newidiodd byddin Edward I un o'r tyrau i wneud lle am gatapyltiau mawr.

*Yn y car: cymerwch yr A497 i Gricieth o Borthmadog neu Bwllheli. Mae lle parcio ar gael gerllaw'r safle, yna taith gerdded serth ond byr i'r castell o'r ganolfan i ymwelwyr. Ar y trên: mae gorsaf Cricieth ar linell Amwythig-Machynlleth/Pwllheli, 400m i ffwrdd. Edrychwch ar wefan Cadw am brisiau mynediad a'r amserau agor.*

## Abaty Cymer

Cafodd Abaty Cymer ei sefydlu ym 1198 gan Maredudd ap Cynan, cefnder a chynghrair Llywelyn Fawr, ac fe'i cefnogwyd gan dywysogion olynol dros y ganrif nesaf. Heb os, roedd y mynachod Sistersaidd yma'n gynhyrchiol: yn ogystal â chadw defaid, roeddent yn pysgota am eog ac yn magu ceffylau. Yn ystod teyrnasiad Llywelyn Fawr, roedd disgwyl i'r mynachod gyflenwi dau ebol o frîd amgenach bob blwyddyn.

Gallwch gael syniad da hyd heddiw o faint a siâp yr eglwys syml hon. Chwiliwch am y bwâu a'r tair ffenestr bigfain dal sy'n goroesi ar y pen dwyreiniol. Gallwch weld hefyd adfeilion y clwysty gerllaw.

Cafodd yr abaty ei ddifrodi yn ystod y rhyfel yn erbyn Edward I ym 1282-3 a chafodd y mynachod £80 yn iawndal gan frenin Lloegr. Ym 1537, daeth diddymiad y mynachlogydd dan Harri VIII â diwedd i'r Abaty heddychlon hwn. Cafodd llawer o'r safle ei ddinistrio; adeiladwyd tŷ a fferm dros ran ohono, gan ddefnyddio rhywfaint o'i garreg.

*Yn y car: mae gan yr Abaty arwyddion o'r A470 2 filltir i'r gogledd o Ddolgellau. Edrychwch ar wefan Cadw am ragor o fanylion.*



Abaty Cymer

Jwg Saintonge wedi'i ail-wneud a ganfuwyd yng Nghastell y Bere



## Castell y Bere

Mae Castell y Bere, a gafodd ei adeiladu gan Llywelyn Fawr ym 1221, yn edrych dros ddyffryn prydferth Dysynni.

Daeth y castell i fodolaeth yn sgil anghydfod teuluol. Nid oedd Llywelyn Fawr yn hapus â'r ffordd yr oedd ei fab Gruffudd yn rheoli Meirionnydd ac Ardudwy, felly cymerodd reolaeth yn ôl o'r tiriogaethau hyn. Wedyn, carcharodd Gruffudd ac adeiladodd gastell newydd iddo'i hun yn y fan hon. Roedd Castell y Bere'n un o'r caeru olaf i Dafydd ac Gruffudd ei wrthsefyll yn erbyn cyrch Edward I ar ôl marwolaeth ei frawd, Llywelyn ein Llyw Olaf, ym 1282.

*Yn y car: mae'r adfeilion gerllaw Llanfihangel y Pennant, oddi ar y B4405, 6½ milltir i'r gogledd-ddwyrain o Dywyn neu drwy'r ffordd gefn o Abergynolwyn. Mae lle parcio ar gael gerllaw'r safle. Ar y trê: mae gorsaf Tywyn, ar lwybr Arfordir Cambria, 7 milltir i ffwrdd, neu gallwch deithio ar reilffordd gul Tal-y-llyn i Abergynolwyn sydd 2½ filltir i ffwrdd ([www.talyllyn.co.uk](http://www.talyllyn.co.uk)). Edrychwch ar wefan Cadw i gael yr amserau agor.*





## Castell Dolwyddelan

Cafodd Castell Dolwyddelan ei adeiladu'n uchel yn y 13eg ganrif gan Llywelyn Fawr ar gefnfen greigiog yn edrych dros Gwm Lledr. Fe'i adeiladwyd i amddiffyn llwybr pwysig i Eryri ac i ddiogelu porfeydd y gwartheg brenhinol, ffynhonnell cyfoeth tywysogaidd hollbwysig. Defnyddiodd Llywelyn ein Llyw Olaf Ddolwyddelan fel caer ac addasodd y gwrthgloddiau gwreiddiol. Yn y diwedd, cipiwyd y castell gan Edward I ym 1283, un flwyddyn ar ôl marwolaeth Llywelyn. Ychwanegodd gwaith adfer Fictoraidd brwdfrydig loriau a tho newydd i'r tŵr ynghyd â'r murganllawiau amlwg. Mae tŵr y gorllewin, a ychwanegwyd gan Edward I mwy na thebyg, yn adfail erbyn hyn.

*Yn y car: mae'r castell 1 filltir i'r de o bentref Dolwyddelan a 5 milltir i'r gogledd o Flaenau Ffestiniog ar yr A470 i Fetws-y-coed. Mae lle parcio ar gael gerllaw'r safle. Ar y trê: mae gorsaf Dolwyddelan ar lwybr Llandudno-Blaenau Ffestiniog, ychydig dros 1 filltir o'r castell. Edrychwch ar wefan Cadw am yr amserau agor.*



Castell Dolwyddelan

© Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

## Llys Rhosyr

Yn Llys Rhosyr, ger Niwbwrch ar Ynys Môn, gallwch weld yr unig adfeilion perthnasol sydd wedi goroesi o lys, neu lys tywysogaidd. Datguddiodd gloddiau archeolegol yn y 1990au sylfeini cyfres o neuaddau oedd wedi'u hamgáu gan wal hirsgwar.

Roedd gan y neuaddau do gwellt mwy na thebyg, ond nid yw'n sicr a oedd y sylfeini ar gyfer adeiladau ffrâm bren neu garreg. Mae Amgueddfa Cymru wedi penderfynu ailadeiladu'r brif neuadd yn Amgueddfa Sain Ffagan. Safodd adeiladau llai o faint gerllaw; roedd un ohonynt wedi'i gysylltu â'r brif neuadd trwy goridau a hwyrach mai siambr wely breifat ydoedd. Hyd yma, mae un chwarter o'r safle wedi'i gloddio, gan ddatgelu crochenwaith a cheiniogau yn ogystal â'r adeiladau. Pwy a wŷr pa gyfrinachau sy'n aros i gael eu darganfod?

*Yn y car: Mae Niwbwrch ar yr A4080 ar Ynys Môn. Cymerwch y troad cyntaf ar y chwith wrth yr ysgol a pharhewch yn syth ymlaen am 1/3 milltir. Mae Llys Rhosyr ar y dde. Nid oes llawer o le parcio, argymhellwn eich bod chi'n cerdded o'r pentref.*



Yr adfeilion yn Llys Rhosyr

© David Longley



© Sarah McCarthy

Nantgwynant gyda Dinas Emrys wedi'i lapio mewn niwl

## Teithiau

Rydym wedi rhoi rhai teithiau gwych at ei gilydd sy'n cysylltu lleoedd sy'n gysylltiedig â thywysogion Gwynedd, ac sy'n defnyddio amryw ffyrdd o deithio.

## Sut i ddefnyddio'r arweinyfr hwn

Mae'r teithiau canlynol yn cynnig awgrymiadau o lwybrau y gallwch chi eu dilyn trwy amryw ffyrdd o deithio, gan roi syniad o lefel yr ymdrech gorfforol y mae ei hangen a syniad o faint o amser fydd yn ei gymryd i gwblhau'r daith.

Cofiwch droi at [www.treftdaetheryri.info/tywysogion](http://www.treftdaetheryri.info/tywysogion) i gael gwybod mwy am y safleoedd hanesyddol sydd wedi'u cynnwys yn hwn.

## Pa ddull teithio?

Bydd pob taith yn rhestru'r dulliau cludiant sydd ar gael i gyrraedd y safleoedd dan sylw. Chwiliwch am y symbolau hyn i gyfeirio atynt yn gyflym.



car



trên

[www.traveline-cymru.info](http://www.traveline-cymru.info)



bws

[www.traveline-cymru.info](http://www.traveline-cymru.info)



beic

<http://www.sustrans.org.uk/wales/national-cycle-network/free-leaflets-and-maps>



ar droed

## Pa mor anodd yw'r llwybr?



**hawdd**

mae modd ei gyrraedd yn y car a thrwy gludiant cyhoeddus; mae'n cynnwys pellteroedd cerdded byrrach.



**cymedrol**

mae angen rhywfaint o ymdrech gorfforol i fynd i'r afael â'r llwybrau hyn.



**anodd**

mae'n gofyn am fwy o ymdrech egnïol; mae'n addas i bobl sydd eisiau ymarfer corff mwy beichus.



GOGLEDD



0 milltir 10

Yn cynnwys data'r Arolwg Ordnans

© Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2013



Taith 1  
**Dinas Emrys** tud 22  
 Beddgelert - Craflwyn

Taith 2  
**Tywysogion Gwynedd yn Nyffryn Conwy** tud 24  
 Llandudno - Llanrwst - Betws y Coed

Taith 3  
**I fyny i Ddyffryn Conwy ac o gwmpas y cestyll** tud 26  
 Llandudno - Deganwy - Llandudno - Llanrwst - Betws y Coed - Dolwyddelan

Taith 4  
**Ar Hyd y Fenai** tud 27  
 Caernarfon - Llanberis - Bangor

Taith 5  
**Dros y Pontydd** tud 27  
 Bangor - Ynys Môn

Taith 6  
**Taith Yrru i Ddyffryn Dysynni** tud 28  
 Dolgellau - Abergynolwyn - Tywyn

Taith 7  
**Taith Feicio Dyffryn Dysynni** tud 28  
 Dolgellau - Abergynolwyn - Tywyn

Taith 8  
**Taith Ffordd Fawr Llŷn** tud 30  
 Caernarfon - Clynog Fawr - Carn Fadryn - Aberdaron

Taith 9  
**Ynys yr 20,000 o saint** tud 31  
 Aberdaron - Ynys Enlli

Taith 10  
**Y Daith Fawr** tud 32  
 Conwy - Caernarfon - Beddgelert - Porthmadog - Blaenau Ffestiniog - Dolwyddelan - Betws y Coed - Llanrwst - Cyffordd Llandudno - Conwy

Taith 11  
**Taith Llywelyn Fawr** tud 34  
 Bangor - Caernarfon - Llanberis/ Dolbadarn - Pen y Pass - Nantgwynant - golygfa o Ddinas Emrys - Beddgelert - Llanfrothen - Blaenau Ffestiniog - Dolwyddelan - Betws y Coed - Llanrwst - Trefriw - Conwy - Bwlch Sychnant - Abergwyngregyn - Bangor

## Taith 1:

# Dinas Emrys

## Beddgelert - Craflwyn **Cyfnod: UN DIWRNOD**

Ymddangosodd y Ddraig Goch, y symbol parhaus o Gymru, am y tro cyntaf ar frigg creigiog Dinas Emrys.

Yn ôl y stori, roedd Gwrtheyrn, llywodraethwr pwerus ym Mhrydain yn y 5ed ganrif O.C., yn ail-fyddino yn erbyn y goresgynwyr Eingl-Sacsonaidd. Ceisiodd adeiladu cadarnle ar y bryn strategol hwn. Bob dydd, roedd yn anfon ei adeiladwyr i weithio, ond bob bore, byddent yn deffro i weld eu gwaith wedi'i ddadwneud. Gorwedda'i pentyrrau o rwbel lle'r oedd y waliau newydd eu hadeiladu wedi sefyll. Awgrymodd y consurwyr oedd yn cynghori Gwrtheyrn ateb: roedd rhaid iddo aberthu 'bachgen heb dad' ac ysgeintio'i waed ar y safle lle dymunai adeiladu.

Daethant o hyd i fachgen priodol yn gyflym. Cyn y gallent dynnu ei waed, fodd bynnag, llwyddodd y bachgen i argyhoeddi Gwrtheyrn fod ei broblemau gyda'r safle yr oedd wedi'i ddewis. Esboniodd fod llyn tanddaerol o dan y bryn oedd yn cynnwys dwy ddraig. O gloddio, cafodd y bachgen ei brofi'n iawn, a phan gawsant eu rhyddhau cafodd y ddwy ddraig - un goch ac un wen - frwydr yn erbyn ei gilydd. Y ddraig goch enillodd y dydd ac mae'r gorchfygiad symbolaidd hwn ar y Sacsoniaid gan y bobl Brydeinig frodorol yn cael ei gofio ar faner Cymru hyd heddiw.


Enwodd Gwrtheyrn y castell a adeiladodd yn y pen draw ar ôl y bachgen a roddodd y cyngor iddo. Myrddin Emrys oedd ei enw. Ond rydym yn ei adnabod heddiw fel Myrddin, cynghorydd gwych a doeth y Brenin Arthur.

Y tu hwnt i'r myth, mae archeoleg wedi datgelu tystiolaeth glir o feddiannaeth gynnar ar y bryn. Cafodd crochenwaith egsotig a gwyrdd cain eu darganfod – sef mewnforion statws uchel o'r Canoldir a de Ffrainc, sy'n dyddio i'r 5ed a'r 7fed ganrif. Mae gweddillion ochrau neu ragfuriau o garreg ar ochr orllewinol copa'r bryn yn dyddio i'r un adeg o bosibl, ond mwy na thebyg fod defnydd caerog y safle'n mynd nôl i'r Oes Haearn.

Beth am feddiannaeth ddiweddarach Dinas Emrys? Roedd tŵr o'r oesoedd canol ar y safle, a'r gred yw y cafodd ei adeiladu ar ddiwedd y 12fed ganrif pan gafwyd brwydr am oruchafiaeth ymhlith tywysogion Gwynedd ar ôl marwolaeth Owain Gwynedd. Yn sicr, mae'r bryn yn defnyddio safle strategol bwysig, gan warchod un o'r prif lwybrau trwy Eryri ac ar yr adeg honno, roedd ond 2½ filltir o'r môr.


Heddiw, gall ymwelwyr â Dinas Emrys weld rhagfuriau'r fryngaer hynafol, sylfeini carreg y tŵr o'r oesoedd canol a'r pwll lleidiog islaw. Dangosodd y gwaith cloddio mai seston wedi'i leinio â phren oedd y pwll ar un adeg; a allai fod cyswllt rhwng yr ardal ddyfrllyd hon a llyn chwedlonol y dreigiau?

**TEITHIO:** Ewch ar y trê'n i Feddgelert a gallwch naill ai gerdded, beicio neu fynd ar y bws 1.2 milltir ar hyd yr A498 i faes parcio'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghraflwyn. Mae'r llwybr cerdded sydd wedi'i gyfeirbwyntio i fyny ac i lawr Dinas Emrys yn cymryd oddeutu 2 awr (rhyw 2 filltir) ac mae'n arw ac yn serth mewn manau.





Dinas Emrys



© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2013 Arolwg Ordnans 100023387. Mae telerau ac amodau'n gysylltiedig â defnyddio'r data hwn.

## Taith 2:



# Tywysogion Gwynedd yn Nyffryn Conwy

Llandudno - Llanrwst - Betws y Coed **Cyfnod: UN DIWRNOD**

Ewch i dref farchnad hanesyddol Llanrwst a mwynhewch gyfnod o fyfyrdod tawel yng Nghapel Gwydir, sydd ynghlwm wrth Eglwys Sant Grwst. Yma mae arch garreg Llywelyn Fawr (1173-1240), a lywodraethodd y rhan fwyaf o Gymru yn ystod dechrau'r 13eg ganrif. Cafodd arch Llywelyn ei gladdu'n wreiddiol yn Abaty Aberconwy yng Nghonwy ond cafodd ei symud yn ddiweddarach i Abaty Maenan, ger Llanrwst, ar ôl i Edward I orfodi'r mynachod Sistersaidd i symud yno o Gonwy ym 1283.

Ym Metws y Coed, stopiwch wrth Eglwys Sant Mihangel nesaf at yr amgueddfa rheilffyrdd i gyfarfod â disgynnydd y tywysogion. Y tu mewn i'r eglwys o'r 14eg ganrif mae cerfwaith calchfaen maint byw mewn arfwisg. Y gred yw mai Gruffydd ap Dafydd Goch yw'r ddelw. Brwydrodd Gruffydd ochr yn ochr â'r Tywysog Du ym Mrwydr Poitiers ym 1356. Gruffydd oedd wŷr Dafydd ap Gruffydd, tywysog olaf Cymru annibynnol.

**TEITHIO:** Ewch ar y trê'n o Landudno, gan newid yng ngorsaf Cyffordd Llandudno i deithio i fyny i Ddyffryn Conwy i Llanrwst, neu cymerwch fws rhif 19 o orsaf drenau Cyffordd Llandudno. Neidiwch nôl ar y trê'n i Fetws y Coed i ymweld ag Eglwys Sant Mihangel. Gorffennwch eich taith yng Nghanolfan Groeso Betws y Coed, lle gallwch weld arddangosfa fach am oes y tywysogion.







## Taith 3:



# I fyny i Ddyffryn Conwy ac o gwmpas y cestyll

Llandudno - Deganwy - Llandudno - Llanrwst - Betws y Coed - Dolwyddelan  
**Cyfnod: DAU DDIWRNOD**

Ewch ar daith hamddenol o ddeuddydd ar y trên ar hyd Dyffryn Conwy, gan stopio i ymweld â chestyll y tywysogion yn Neganwy, Dolwyddelan a Thomen Castell gerllaw. Erbyn hyn, nid oes modd i ymwelwyr fynd i Domen Castell sydd ar domen greigiog drawiadol. Mae'n bosibl mai gwir fan geni Llywelyn Fawr oedd hwn.

**TEITHIO: Diwrnod un:** Dechreuwch yn Llandudno a theithiwch i adfeilion Castell Deganwy. Mae llwybr cerdded cylchol i'r castell yn dechrau ar ffordd Bryn Lupus yn Llanrhos. Gellir lawrlwytho'r manylion yn hawdd o wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ([www.conwy.gov.uk](http://www.conwy.gov.uk) - ewch i'r tudalennau Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy). Ar ôl i chi fwynhau Deganwy, ewch ar y trên neu'r bus i lawr i Lanrwst i ymweld ag Eglwys Sant Grwst. Wedyn, ewch i Fetws y Coed a threuliwch noson hamddenol yn y pentref hardd hwn, gan gymryd amser i ymweld ag arddangosfeydd y Ganolfan Groeso.

**Diwrnod Dau:** Ewch ar y trên i Ddolwyddelan yn y bore. Bydd taith gerdded o filltir tua'r gorllewin ar hyd yr A470, mewn cefn gwlad hyfryd, yn eich arwain at adfeilion trawiadol Castell Dolwyddelan a'i frawd hŷn, mwyr dirgel, Tomen Castell. Y stop olaf ar linell y trên yw Blaenau Ffestiniog, gyda'i dirwedd chwareli llechi anhygoel.



© Hawffraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2013 Arolwg Ordnans 100023380  
 Mae telerau ac amodau'n gysylltiedig â defnyddio'r data hwn

© Yn cymwynys data'r Arolwg Ordnans © Hawffraint y Goron a hawl cronfa ddata 2013

© Hawffraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2013 Arolwg Ordnans 100023380  
 Mae telerau ac amodau'n gysylltiedig â defnyddio'r data hwn

Taith 4:

## Ar hyd y Fenai

Caernarfon – Llanberis – Bangor **Cyfnod: UN DIWRNOD**

Dechreuwch eich antur yn Oriel Pendeitsh yn nhref hanesyddol Caernarfon, sydd gyferbyn â chastell eithriadol Edward I; yma, fe welwch arddangosfa sy'n olrhain hanes Caernarfon a'r ardal o'i hamgylch. Wedyn, teithiwch i gaer Dolbadarn, ger Llanberis, lle carcharodd Llywelyn ein Llyw Olaf ei frawd, Owain am 22 o flynyddoedd. Symudwch ymlaen i ddinas hyfryd Bangor ac amsugnwch Eglwys Gadeiriol odidog Sant Deiniol, a gafodd ei henwi ar ôl yr uchelwr o'r 6ed ganrif a adeiladodd fynachlog yma. Cododd Deiniol ffens bleth o amgylch ei dir newydd; gair arall am hyn yw 'bangor', a roddodd yr enw i'r ddinas sydd ohoni. Tra byddwch ym Mangor, archwiliwch drysorau Amgueddfa ac Oriel Gwynedd.

**TEITHIO:** Teithiwch yn hawdd rhwng Caernarfon, Llanberis a Bangor, naill ai yn y car neu trwy ddefnyddio un o'r gwasanaethau bws mynych sy'n gwasanaethu'r ardal hon. Tra byddwch ar y ffordd, mwynhewch olygfeydd dramatig o Fynyddoedd Eryri; arferai'r llethrau is gael eu defnyddio yn lle i bori (ffriddoedd) i wartheg y tywysogion o'u lleoliad yng Nghastell Dolbadarn. Wrth ichi deithio ochr yn ochr â'r Fenai, syllwch draw i dirwedd donnog Ynys Môn a'i chaeau o rawn. Arferai cael ei adnabod fel 'Môn Mam Cymru', ac roeddent yn darparu grawn a bara i Eryri.

**DEWIS BEICIO:** Dilynwch Ffordd Feicio Lôn Las Menai, y llwybr beicio o Gaernarfon i Fangor, ar hyd y Fenai. Mae'r llwybr yn 10 milltir (gyda rhai rhannau'n dringo bryniau).



Taith 5:

## Dros y pontydd

Bangor – Ynys Môn **Cyfnod: UN-DAU DDIWRNOD**

Gan ddechrau o Eglwys Gadeiriol Bangor, treuliwch ambell i ddiwrnod yn mwynhau mannau ysbrydol y tywysogion ar Ynys Môn ac adfeilion archeolegol un o'u llysoedd. Ewch i Eglwys a Phriordy Penmon, yr enghraifft orau yng Ngogledd Cymru o eglwys sydd wedi goroesi o adeg tywysogion Gwynedd. Mae'r llys brenhinol yn Llys Rhosyr, Niwbwrch wedi'i gloddio ac mae amlinelliad o'r neuadd bellach i'w weld. Os bydd amser yn caniatáu, gallech fynd i weld Biwmaris hefyd, lle mae modd ymweld ag arch garreg Siwan, 'Boneddiges Cymru', yn ogystal ag Aberffraw - sedd gynnar bwysig llinach tywysogion Gwynedd.

**TEITHIO:** Gwasanaethir prif bentrefi Ynys Môn yn dda gan fysiau cyson o Fangor. Edrychwch ar [www.ynysmon.gov.uk](http://www.ynysmon.gov.uk) neu ffoniwch 0870 608 2608. Bydd angen cerdded am ychydig dan 2 filltir i fynd i Briordy Penmon os ydych chi wedi mynd ar y bws i Fiwmaris. Mae rhagor o wybodaeth ar gael hefyd ar [www.walkingnorthwales.co.uk](http://www.walkingnorthwales.co.uk), lle gallwch ddarganfod hefyd sut i gysylltu'ch ymweliad ag Ynys Môn â rhyfeddodau Llwybr Arfordir Cymru.



**Taith 6:**

## Taith yrru i Ddyffryn Dysynni

**Dolgellau – Abergynolwyn – Tywyn Cyfnod: UN DIWRNOD**

Cymerwch ddiwrnod i fwynhau awrygylch heddychlun Abaty hyfryd Cymer lle arferai'r mynachod Sistersaidd ffermio'r tiroedd o'i amgylch. Symudwch ymlaen i archwilio adfeilion rhamantus Castell y Bere, ar grimog greigiog islaw llethrau Cader Idris. Cafodd y castell ei adeiladu gan Llywelyn ap Iorwerth ar ôl iddo gymryd rheolaeth o'r ardal hon yn ôl oddi ar ei fab. Efallai y byddwch yn dymuno ymweld ag Eglwys hynafol Sant Cadfan yn Nhywyn hefyd, lle mae carreg arysgrifedig o'r 7fed neu'r 8fed ganrif yn cynnwys y Gymraeg ysgrifenedig gynharaf y gwyddwn amdani.

**TEITHIO:** Gan ddechrau o Ddolgellau, ewch yn y car i Abaty Cymer i ymweld â'r abaty. Mae'r safle, dan warchodaeth Cadw gydag arwyddion i'ch cyfeirio ato, yn sefyll 2 filltir i gyfeiriad y gogledd o Ddolgellau ar is-ffordd oddi ar yr A470. O'r fan hon, gyrrwch i lawr yr arfordir i Gastell y Bere, 2 filltir i'r gogledd-ddwyrain o'r B4405 yn Abergynolwyn.

**Taith 7:**

## Taith feicio Dyffryn Dysynni

**Dolgellau – Abergynolwyn – Tywyn Cyfnod: UN DIWRNOD**

Cymerwch ddiwrnod i archwilio'r dyffryn trawiadol hwn ar ddwy olwyn, gan ymweld â chestyll ar hyd y ffordd.

**TEITHIO:** Beiciwch o Dywyn i Gastell y Bere, ac yna i Abergynolwyn cyn bwrw nôl i Dywyn. Mae'r ddolen hon yn dilyn ffyrdd cymharol dawel (ar ôl y prif ffyrdd ar ddechrau'r llwybr) ac mae'n mwynhau golygfeydd prydferth. Mae modd osgoi'r bryn mawr rhwng Castell y Bere ac Abergynolwyn trwy ddilyn rhan fyrrach o'r llwybr o Dywyn i Gastell y Bere. Ewch i wefan sustrans ([www.sustrans.org.uk](http://www.sustrans.org.uk)) i edrych ar y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol sy'n berthnasol i'r ardal hon.





© Yn cymmwys data'r Arolwg Ordnans © Hawffraint y Goron a hawl cronfâ ddata 2013

Teithiau



Castell y Bere


## Taith 8:

# Taith ffordd fawr Llŷn

Caernarfon - Clynnog Fawr - Carn Fadryn - Aberdaron **Cyfnod: UN DIWRNOD**

Teithiwrch i lawr y rhan arfordirol drawiadol hon, ac amsugnwrch rai o dirweddau mwyaf trawiadol a heb eu difetha Gogledd Cymru, gan ddarganfod cysylltiadau ysbrydol y tywysogion. Dyma Ffordd y Pererinion, oedd yn teithio o Ffynnon Wenfrewi yn Nhreffynnon i ynys sanctaidd Enlli. Fe welwrch bentref swynol Clynnog Fawr, gyda'i eglwys hardd o'r 16eg ganrif, sydd wedi'i chysegru i Sant Beuno, yn ogystal ag adfeilion godidog Carn Fadryn - y castell (neu gaer) Cymreig a gafodd ei grybwyll gan Gerallt Gymro sy'n sefyll yng nghanol caer enfawr o'r Oes Haearn. Dewch â'ch taith i ben yn Aberdaron ac Eglwys Sant Hywyn hyfryd a oedd yn noddfa i Gruffudd ap Cynan, tywysog pwysig o dras hanner Gwyddelig a oedd yn byw rhwng oddeutu 1055 a 1137.

**TEITHIO:** Gan ddechrau yn yr arddangosfa yn Oriel Pendeitsh (gyferbyn â'r Castell), teithiwrch yn y car i Glynnog Fawr (ar yr A499 a thaith car 20 munud o Gaernarfon). O'r fan hon, gyrrwrch i Garn Fadryn a pharciwrch wrth y capel. Mae'n daith gerdded feichus, 45 munud o hyd i fyny llwybr troed o'r capel i gopa'r mynydd. Ar ôl i chi goncro'r mynydd, os oes gennych yr egni, ewch i lawr i Aberdaron i ymweld ag Eglwys Sant Hywyn, a arferai fod yn noddfa i Gruffudd ap Cynan (1055-1137). Dylai'r llwybr hwn gymryd diwrnod i'w gwblhau.





## Ynys Enlli

Taith 9:

# Ynys yr 20,000 o saint

Aberdaron - Ynys Enlli **Cyfnod: UN DIWRNOD**

Oes amser gennyh o hyd i archwilio? Arhoswch dros nos yn Aberdaron a threuliwch y diwrnod nesaf ar Ynys Enlli i fwynhau heddwch a harddwch yr ynys gydag '20,000 o saint'. Tra byddwch yno, ewch i Abaty'r Santes Fair, y fynachlog a sefydlwyd gan Sant Cadfan. Mae'r ynys yn cael ei ffermio o hyd, ac mae llawer o wylwyr adar yn ymweld â hi, yn enwedig yn y gwanwyn a'r hydref.

**TEITHIO:** Mae taith ddiwrnod o Borth Meudwy i Enlli ar gael (yn dibynnu ar y tywydd) trwy drefnu ymlaen llaw. Cysylltwch â'r Ganolfan Groeso ym Mhwlheli neu Ganolfan Ymwelwyr Porth y Swnt yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Aberdaron (gweler y clawr ôl)



**Taith 10:**

# Y Daith Fawr

**Conwy - Caernarfon - Beddgelert - Porthmadog - Blaenau Ffestiniog - Dolwyddelan - Betws y Coed - Llanrwst - Cyffordd Llandudno - Conwy** **Cyfnod: TRIDIAU NEU'N FWY**

Mwynhewch daith trwy deyrnas Gwynedd ar y trê'n. Gallwch gychwyn a gorffen y llwybr cylch hwn unrhyw bryd a defnyddio rhwydwaith rheilffyrdd a bysiau gwych Gogledd Cymru i archwilio'r rhan fwyaf o'r safleoedd a ddisgrifir yn yr arweinyfr hwn. Os ydy'r trosolwg hwn yn mynd â'ch bryd, gallwch ddod o hyd i ragor o fanylion ar ein gwefan [www.treftadaetheryri.info/](http://www.treftadaetheryri.info/) tywysogion

**TEITHIO:** Cychwynwch o orsaf drenau Conwy ar ôl ymweld ag arddangosfa Tywysogion Gwynedd gerllaw yn y Ganolfan Groeso. Cymerwch y bws yn uniongyrchol o Gonwy i Gaernarfon; mae'r arhosfan bws rhyw 100m i fyny'r bryn o'r Ganolfan Groeso. O Gaernarfon, ewch ar reilffordd stêm gul Eryri i Feddgelert (1 awr), gan deithio trwy galon Eryri. Ar ôl yr esgyniad syfrdanol i Ryd Ddu wrth droed yr Wyddfa, camwch oddi ar y trê'n wrth bentref bach hyfryd Beddgelert. Os ydych chi'n teithio ar feic, gallech ddargyfeirio a bwrw o Feddgelert i gyfeiriad Nantgwynant a Dinas Emrys (edrychwch ar daith 1 ar dudalen 22). Mae gan Feddgelert ddewis o lety o safon os penderfynwch ddod â'ch diwrnod cyntaf i ben trwy aros dros nos yma.

O Feddgelert, ewch ymlaen ar Reilffordd Eryri ac ewch i lawr i Fwlch Aberglaslyn i Borthmadog (55 munud). Gallwch newid i fynd ar Reilffordd Ffestiniog yno a bwrw am Flaenau Ffestiniog. Ar un tro, roedd y rheilffordd dreftadaeth swynol hon yn cario llechi o chwarelly Ffestiniog i lawr i Borthmadog i'w hallforio dros y môr. O Flaenau Ffestiniog, cymerwch brif lein A55 Cyffordd 9 Dyffryn Conwy i Ddolwyddelan. Gallwch gerdded neu feicio'r filltir neu ddwy

o'r fan hon i Gastell trawiadol Dolwyddelan.

O'r fan hon, ewch ymlaen i Fetws y Coed, sy'n cynnig digon o lety dros nos, os dymunwch aros fan hyn. Gallwch ymweld ag Eglwys Sant Mihangel ym Metws y Coed cyn teithio ymhellach ar hyd y lein i Lanrwst (llai na deg munud). Cymerwch saib i edrych ar Eglwys ryfeddol Sant Grwst, sef man gorffwys arch garreg Llywelyn Fawr. Bydd y trê'n o Lanrwst yn mynd â chi'n ôl i Gonwy (newid yn Nghyffordd Llandudno). Archwiliwch safleoedd ar y ffordd fel Eglwys y Santes Fair (Trefriw), naill ai ar feic neu ar droed. Byddwch yn ymwybodol nad yw'r trenau'n rhedeg yn fynych ar hyd rhai rhannau o'r llwybr, felly bydd hi'n werth treulio peth amser yn cynllunio'ch taith yn ofalus yn erbyn yr amserlenni. Edrychwch ar ein gwefan i gael rhagor o fanylion.



**RHAGOR O WYBODAETH:** Gallwch fynd â beiciau ar y gwasanaethau trê'n hyn yn rhad ac am ddim (dylai grwpiau o bedwar neu'n fwy gysylltu â'r cwmni trê'n ymlaen llaw). Mae gan Reilffyrdd Ffestiniog ac Eryri wasanaeth cyfyngedig rhwng 1 Tachwedd ac 1 Mai bob blwyddyn. Os byddwch chi'n ymweld yn ystod y misoedd hyn, gallwch ddefnyddio Gwasanaeth Bws Sherpa (nad yw'n cario beiciau) yn lle hynny, ond bydd angen ichi edrych yn ofalus ar yr amserlenni (mae ganddo wasanaeth cyfyngedig yn y gaeaf ac ar ddydd Sul). I gael rhagor o wybodaeth a manylion cyswllt, edrychwch ar glawr ôl yr arweinyfr hwn.





## Taith 11

# Taith Llywelyn Fawr

Bangor - Caernarfon - Llanberis/ Dolbadarn - Pen y Pass - Nantgwynant - golygfa o Ddinas Emrys - Beddgelert - Llanfrothen - Blaenau Ffestiniog - Dolwyddelan - Betws y Coed - Llanrwst - Trefriw - Conwy - Bwlch Sychnant - Abergwyngregyn - Bangor

**CYFNOD: DAU, TRI NEU SAITH NIWRNOD (ar gyfer cyflymder mwy hamddenol)**

Llwybr arwrol i feicwyr brwd! Mae'r daith hon wedi'i dylunio i'r rheiny sydd am ymweld â chynifer o leoliadau clasurwl y tywysogion â phosibl, ac sy'n barod am wyliau ysbrydoledig ar gefn beic. Mae modd i feiciwr brwd gwblhau'r llwybr cyfan mewn dau neu dri diwrnod, neu gellir ei ymestyn dros wythnos ar gyflymder mwy hamddenol, gan

ymweld â Chaernarfon neu Lanberis, Beddgelert, Blaenau Ffestiniog, Betws y Coed a Chonwy. Cofiwch ymweld ag arddangosfeydd Tywysogion Gwynedd yng Nghonwy, Betws y Coed, Caernarfon a Beddgelert (gweler y clawr ôl).



## Y pum safle gorau am. . .

Dim llawer o amser? Os mai dim ond hanner diwrnod neu ychydig oriau sydd gennych i archwilio, neidiwch i mewn i'r car i unrhyw un o'r lleoliadau tywysogion Gwynedd gwych hyn. Gallwch ddod o hyd i'r holl wybodaeth angenrheidiol yn [www.treftadaetheryri.info/tywysogion](http://www.treftadaetheryri.info/tywysogion).

### Y pum safle gorau i grwydro:

1. Castell y Bere
2. Castell Deganwy
3. Castell Dolwyddelan
4. Canol tref Biwmaris
5. Canol tref Conwy

### Y pum lle gorau i deuluoedd:

1. Castell Dolwyddelan
2. Castell Dolbadarn
3. Castell Cricieth
4. Castell y Bere
5. Dinas Emrys

### Y pum lleoliad gorau i fynd atynt yn hawdd:

1. Castell Dolbadarn
2. Abaty Cymer
3. Eglwys Gadeiriol Bangor
4. Eglwys Sant Grwst, Llanrwst
5. Castell Conwy

### Y pum lle gorau i fwynhau golygfeydd trawiadol:

1. Castell Deganwy
2. Castell y Bere
3. Castell Dolwyddelan
4. Castell Dolbadarn
5. Castell Cricieth



## DILYNWCH Y STORI:



### Castell Ewloe

Sicrhewch eich bod yn chwilio am adfeilion un o gyfrinachau gorau Cymru'r Oesoedd Canol - 'y castell yng nghornel y goedwig', a adeiladwyd gan Llywelyn ein Llyw Olaf



### Castell Dolforwyn

Peidiwch â cholli'r castell Cymreig cain hwn, a godwyd gan Llywelyn ein Llyw Olaf er mwyn herio brenin Lloegr.



### Tomen y Rhodwydd

Heddiw, mae safle castell Owain Gwynedd o'r 12fed ganrif yn cael ei bori gan ddefaid, ond roedd yn safle brwydr galed rhwng llywodraethwyr gelyniaethus Cymru ar un tro.



Ewch i'n gwefan yn  
[www.treftadaetheryri.info/tywysogion](http://www.treftadaetheryri.info/tywysogion)

## Mannau gwybodaeth Tywysogion Gwynedd

Peidiwch ag oedi i gysylltu â'n staff cyfeillgar am gyfarwyddiadau neu fanylion ar lwybrau cerdded, llwybrau beicio, amserau agor a gwybodaeth am fynediad. Mae'r rhan fwyaf o'r safleoedd ar agor trwy'r flwyddyn ac yn rhad ac am ddim.

### Beddgelert

Canolfan Hebog  
 LL55 4YD  
**01766 890615**  
[TIC.Beddgelert@eryri-npa.gov.uk](mailto:TIC.Beddgelert@eryri-npa.gov.uk)

### Craflwyn

Ger Beddgelert,  
 Gwynedd,  
 LL55 4NG  
[www.nationaltrust.org.uk/craflwyn-and-beddgelert](http://www.nationaltrust.org.uk/craflwyn-and-beddgelert)

### Betws y Coed

Stablau'r Royal Oak  
 LL24 0AH  
**01690 710426**  
[TIC.BYC@eryri-npa.gov.uk](mailto:TIC.BYC@eryri-npa.gov.uk)

### Cricieth

Castell Cricieth  
 Stryd y Castell  
 LL52 0DP  
**01766 522227**  
[www.cadw.wales.gov.uk](http://www.cadw.wales.gov.uk)

### Caernarfon

Oriel Pendeitsh  
 Stryd y Castell  
 LL55 1ES  
**01286 672232**  
[caernarfon.tic@gwynedd.gov.uk](http://caernarfon.tic@gwynedd.gov.uk)

### I gael gwybodaeth am gysylltiadau cludiant cyhoeddus, cysylltwch â:

**Traveline Cymru** [www.travelinecymru.info](http://www.travelinecymru.info)  
 Ffon: **0871 200 22 33**

**Rheilffordd Dyffryn Conwy**  
[www.conwyvalleyrailway.co.uk](http://www.conwyvalleyrailway.co.uk)

**Trenau Arriva Cymru** [www.arrivatrainswales.co.uk](http://www.arrivatrainswales.co.uk)

### Conwy

Adeilad Muriau  
 Stryd Rosehill  
 LL32 8LD  
**01492 577566**  
[conwytic@conwy.gov.uk](mailto:conwytic@conwy.gov.uk)